Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

CA(3)-15-10 : Papur 3 : 27 Mai 2010

Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) - Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partïon.

Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

1. Cyflwyniad

Mae Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) yn cynnwys ystod eang o bwerau i wneud rheoliadau a gorchmynion ac i roi arweiniad. Bwriad Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) 2010 yw i foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993") ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

2. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Esbonnir y rhain yn Rhan 1(5) o'r Memorandwm Esboniadol a osodwyd gyda'r Mesur arfaethedig, ac yn y Nodiadau Esboniadol sydd ar ddiwedd y Memorandwm Esboniadol. Mae adran 139 o'r Mesur yn nodi pa fathau o orchmynion neu reoliadau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol.

Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu'r pwerau a ganlyn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth:-

(i) Penodi Comisiynydd Iaith - Y meini prawf ar gyfer penodi'r Comisiynydd gan y Prif Weinidog ac ar gyfer penodi aelodau'r Panel Cynghori a'r Tribiwnlys gan Weinidogion Cymru

Rheoliadau penodi mewn perthynas â'r Comisiynydd

Mae adran 2(2) yn darparu bod yn rhaid i'r Prif Weinidog benodi'r Comisiynydd Iaith. Mae Atodlen 1 yn darparu manylion pellach am weithdrefnau penodi. Mae paragraff 3(1)(a) o Atodlen 1 yn nodi bod yn rhaid i'r Prif Weinidog gydymffurfio â rheoliadau penodi dilynol. Mae paragraff 7 o Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer sefydlu panel o unigolion a fydd yn cyfweld ymgeiswyr ac yn rhoi argymhellion i'r Prif Weinidog.

Gweithdrefn: Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Dirprwyo swyddogaethau'r Prif Weinidog

Mae paragraffau 8 (1) a (2) o Atodlen 1 yn caniatáu i'r Prif Weinidog wneud gorchymyn i ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i Weinidogion Cymru, o dan y Mesur.

Gweithdrefn: Os oes angen diwygio'r Mesur mewn unrhyw ffordd ar gyfer y swyddogaethau dirprwyedig hyn, bydd hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Pan na fydd y gorchymyn yn darparu ar gyfer diwygio'r Mesur arfaethedig, bydd y gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rheoliadau penodi mewn perthynas ag aelodau'r Panel Cynghori a'r Tribiwnlys

Mae adran 22 o'r Mesur yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Panel Cynghori ac mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaethau pellach ynghylch pwerau gwneud rheoliadau yn hynny o beth.

Gweithdrefn: Bydd unrhyw reoliadau sy'n ymdrin â phenodi aelodau'r panel cynghori yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rheoliadau penodi mewn perthynas ag aelodau'r Tribiwnlys

Mae adran 109(3) yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Tribiwnlys ac mae Atodlen 11 yn gwneud darpariaethau pellach ynghylch pwerau gwneud rheoliadau yn hynny o beth.

Gweithdrefn: Bydd unrhyw reoliadau sy'n ymdrin â phenodi aelodau'r tribiwnlys yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

(ii) Y ffordd y mae'r Comisiynydd yn cyflawni'i swyddogaethau

Cymorth cyfreithiol: costau

Mae adran 9 o'r Mesur arfaethedig yn ymdrin ag adennill treuliau'r Comisiynydd a dynnwyd wrth ddarparu cymorth cyfreithiol o dan

adran 8. Mae adran 9(4) yn darparu y bydd rheoliad yn cael ei wneud er mwyn cyfrifo treuliau'r Comisiynydd.

Gweithdrefn: Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Adroddiad blynyddol y Comisiynydd i Weinidogion Cymru ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae adran 108 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch adroddiadau gan y Comisiynydd i Weinidogion Cymru ar y ceisiadau a wnaed gan unigolion i'r Comisiynydd yn gofyn am ymchwiliad i achos honedig o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i geisiadau o'r fath; a barn y Comisiynydd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith i warchod rhyddid personau yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd.

Gweithdrefn: Bydd rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Uniondeb cymeriad y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd

Mae Pennod 1 yn Rhan 8 o'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaethau mewn perthynas ag uniondeb cymeriad y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd. Mae adran 129 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru nodi pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion cofnodi gwrthdrawiadau buddiannau a chreu, cynnal a chyhoeddi cofrestrau buddiannau.

Gweithdrefn: Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cyfyngiadau ar y Comisiynydd

Mae adran 133 yn nodi nad yw'r Comisiynydd wedi'i awdurdodi i arfer swyddogaeth benodol sydd, yn rhinwedd deddfiad, yn arferadwy gan berson arall, ac nad oes gofyn iddo wneud hynny. Mae adran 133(2) yn rhoi pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru bennu a nodi y swyddogaethau penodol a'r personau o dan sylw.

Gweithdrefn: Byddai gorchmynion o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

(iii) Y Comisiynydd yn gweithio ar y cyd ag ombwdsmyn a ragnodir neu awdurdodau eraill, ac yn gweithio'n gyfochrog â hwy

Gweithio ar y cyd rhwng y Comisiynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae adran 19 o'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r Comisiynydd yn gweithio ar y cyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae adran 19(4)(a) yn rhoi pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru ddarparu bod adran 19 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson arall fel y mae'n gymwys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Gweithdrefn: Byddai gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os yw'r gorchymyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Os nad yw'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, byddai'r gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Gweithio'n gyfochrog rhwng y Comisiynydd ac ombwdsmyn eraill

Mae adran 20 o'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gweithio'n gyfochrog rhwng y Comisiynydd ac ombwdsmyn eraill. Mae adran 20(7) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, y diffiniad o ombwdsmon yn is-adran (6). Mae gorchymyn a wneir o dan adran 20(7) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae is-adran (8) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â, at ddibenion neu o ganlyniad i ddiwygiad a wneir drwy orchymyn o dan is-adran (7).

Gweithdrefn: Mae gorchymyn a wneir o dan adran 20(8) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, oni bai ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, os felly, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Pŵer i ddatgelu gwybodaeth

Mae adran 21 o'r Mesur arfaethedig yn ymdrin â gwybodaeth a gafwyd wrth i'r Comisiynydd arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, a sut y rheolir y wybodaeth honno. Mae adran 21(10) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r diffiniad o "person a ganiatawyd" yn is-adran (9).

Gweithdrefn: Byddai gorchymyn a wnaed o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

(iv) Gosod safonau ar bersonau a ragnodir yn y Mesur

Pennu safonau

Mae adran 25(1) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru bennu safonau a fydd yn berthnasol mewn perthynas â phersonau.

Gweithdrefn: Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Diwygio'r personau a'r categorïau a bennir yn Atodlenni 6 a 8

Mae adrannau 34 a 37 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Atodlenni 6 ac 8, sy'n pennu'r personau neu'r categorïau o bersonau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau.

Gweithdrefn: Bydd y gorchmynion hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oni bai y gwneir y gorchymyn o ganlyniad i newid enw person. Os digwydd hynny, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Diwygio swm yr arian cyhoeddus y mae'n rhaid i berson ei dderbyn er mwyn cael ei gynnwys o fewn y disgrifiad o berson yng nghofnod (5) Atodlen 5

Mae paragraff 1(1) o Atodlen 5 i'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio cofnod (5) yn y tabl drwy gyfnewid y swm perthnasol o arian cyhoeddus am unrhyw swm arall heb fod yn llai na £400,000.

Gweithdrefn: Bydd gorchymyn o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Gwneud safonau'n benodol gymwys i berson

Mae adran 38 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i berson sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â safon.

Gweithdrefn: Bydd rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Y ddyletswydd i wneud rhai safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys

Mae adran 41 yn rhoi pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru sy'n awdurdodi'r Comisiynydd i ddiwygio'r rhestr o weithgareddau yn Atodlen 9 y mae gofyn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â hwy.

Gweithdrefn: Bydd gorchmynion a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd

Mae adran 68 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd a gynhwysir mewn cofnodion a gedwir gan berson sy'n ddarostyngedig i orfod cydymffurfio â safonau cadw cofnodion.

Gweithdrefn: Bydd rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

(v) Rhoi cosbau sifil

Mae adran 82 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, gyfnewid swm gwahanol am y gosb sifil uchaf o £5,000 y gellid ei gosod mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol.

Gweithdrefn: Bydd gorchmynion a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

(vi) Rheolau ymarferiad a threfniadaeth y Tribiwnlys

Mae adran 112 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywydd y Tribiwnlys wneud rheolau sy'n llywodraethu ymarferiad a threfniadaeth y Tribiwnlys. Mae'r rheolau yn amodol ar gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru, ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud offeryn statudol sy'n cynnwys y rheolau.

Gweithdrefn: Bydd y rheolau sy'n llywodraethu ymarferiad y Tribiwnlys o ddydd i ddydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

(vii) Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol

Mae adran 143 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion ynghylch darpariaethau trosiannol a diwygiadau o ganlyniad i'r Mesur.

Gweithdrefn: Bydd gorchmynion a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Does dim darpariaeth ar gyfer gwneud gorchmynion o dan yr adran hon a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, fel sy'n gyffredin mewn Deddfau Seneddol (ee Adran 160(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

(viii) Darpariaeth gychwyn

Mae adran 145 (2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion a fydd yn dod â'r Mesur i rym (Gorchmynion Cychwyn).

(ix) Diddymu Bwrdd yr Iaith a throsglwyddo'i swyddogaethau

Mae paragraffau 1 a 2 yn Atodlen 12 yn cynnwys dau bŵer gwneud gorchmynion a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth er mwyn i staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg drosglwyddo i'r Comisiynydd neu Weinidogion Cymru ac i ymdrin â throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd.

Gweithdrefn: Bydd y gorchmynion hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rheol Sefydlog 15.6

6.1 Mae Rheol Sefydlog 15.6(ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol a chyflwyno adroddiadau arnynt:

"pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig...sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru"

6.2 Er mwyn cynorthwyo â'i waith o ystyried y Mesur drafft arfaethedig o dan Reol Sefydlog 15.6(ii), efallai y bydd y Pwyllgor am arfer y pwerau a roddir iddo o dan Reolau Sefydlog 10.44 (gwahoddiad i roi tystiolaeth) a 10.45 (galw ar dystion).

Gwasanaethau Cyfreithiol
12 Mai 2010